Allan o'r ffordd?

Arddangosfeydd alcohol mewn archfarchnadoedd

Cyflwyniad

Mae mwy a mwy o ddiodydd alcoholaidd yn cael eu gwerthu yn archfarchnadoedd Prydain, yn rhannol oherwydd disgowntiau mawr ac oriau trwyddedu hirach. Mae alcohol ar gael yn fwy nag erioed mewn siopau. Yn aml, mae ar silffoedd wrth ymyl bwydydd cyffredin fel bara a llaeth, a gall fod yn rhatach na dŵr potel.[1] Dywedodd 70% o bobl a ymatebodd i arolwg gan Alcohol Concern o 1,000 o gwsmeriaid yn 2010 eu bod o blaid cyfyngu arddangosfeydd alcohol mewn siopau i un man penodol.[2] Mae'r papur hwn yn edrych yn fwy manwl ar fater alcohol ac archfarchnadoedd, ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu.

Gwerthiant mewn archfarchnadoedd

Mae archfarchnadoedd yn gallu cael trwyddedau i werthu alcohol yng Nghymru a Lloegr ers dechrau'r 1960au. Cafodd Sainsbury's drwydded ym 1962, gydag eraill yn dilyn yn fuan wedyn.[3] Yn ystod y degawdau diweddar, mae gwerthiant o archfarchnadoedd (a siopau trwyddedig) wedi cynyddu'n weddol gyson ac erbyn hyn nhw sy'n gwerthu bron i hanner yr holl alcohol sy'n cael ei werthu.[4] At hynny, ers cyflwyno trwyddedu 24 awr yn 2005, mae nifer yr archfarchnadoedd a siopau sydd â chaniatâd i werthu alcohol bob awr o'r dydd a'r nos wedi codi'n sylweddol, cynnydd o 27% rhwng 2008 a 2010.[5]

Ynghyd â hyn, mae lefelau yfed yn codi yng Nghymru a Lloegr ers yr Ail Ryfel Byd, a derbynnir yn gyffredinol bod cysylltiad uniongyrchol rhwng hyn â'r ffaith fod alcohol yn haws ei fforddio. Yn 2007, roedd alcohol 75% yn fwy fforddiadwy nag ym 1980, o'i gymharu â'r incwm cyfartalog.[6] Mae archfarchnadoedd, yn enwedig, wedi cael eu beirniadu'n llym am werthu alcohol ar ddisgownt[7] ac mae rhai archfarchnadoedd wedi cyfaddef eu bod yn gwerthu diodydd am lai na'u cost (sef llai na'r pris cyfanwerthu) er mwyn cynyddu gwerthiant.[8]

Gydag alcohol yn haws ei fforddio ac ar gael yn fwy cyffredin mewn siopau, bu newid ym mhatrymau yfed pobl, gyda symud amlwg tuag at fwy o yfed gartref.[9] Mae ystadegau diweddar hefyd yn awgrymu bod y rhai ohonom sy'n yfed gartref yn aml yn arllwys llawer mwy na mesurau diodydd tafarn safonol, a'n bod yn llawer llai tebygol o gadw at ganllawiau yfed.[10]

Arddangos alcohol

Yn wahanol i dybaco, sy'n cael ei werthu mewn man ar wahân mewn archfarchnad, gall alcohol fod ar gael i'w ddewis o nifer o eiliau bwyd a diod arferol, yn ogystal â bod hwnt ac yma drwy'r siop i gyd. Mae pwysigrwydd gwasgaru arddangosfeydd alcohol er mwyn cynyddu gwerthiant wedi'i gydnabod gan y diwydiant diodydd. Mae'r bragwyr Carlsberg, er enghraifft, annog manwerthwyr i "greu pentyrrau o'r cwrw rydych yn ei hyrwyddo" a "gosod pentyrrau i ffwrdd o'r silffoedd cwrw er mwyn hybu prynu ar fympwy."[11]

Brîff Alcohol Concern Cymru

Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol

Allan o'r ffordd?

Brîff Alcohol Concern Cymru

Yn yr Alban, mae deddfwriaeth trwyddedu'n mynnu bod arddangosfeydd o alcohol ar gyfer yfed y tu allan i'r safle yn cael eu cyfyngu i un rhan o'r siop. Gwnaethpwyd hyn fel ymateb i bryder cynyddol bod arddangosfeydd alcohol ar ddiwedd eiliau, wrth fynedfeydd siopau, ac wrth ymyl bwydydd cyffredin, yn annog cwsmeriaid i feddwl am alcohol fel nwydd arferol, yn hytrach na chyffur a allai fod yn beryglus. Nid oes gofynion o'r fath yng Nghymru a Lloegr ar hyn o bryd.

> *"Mae hi wedi dod yn arferol gwerthu gwin wrth ymyl y prydau parod yn yr oergelloedd 'bachu a mynd'. Mae'n rhoi neges gudd i'r gweithiwr/cwsmer prysur yr hoffen nhw yfed alcohol gyda'u swper, a'i bod yn wir yn normal gwneud hynny. 'Ewch ymlaen - rydych chi wedi cael diwrnod caled - rydych chi'n ei haeddu!'"*
>
> Ymddiriedolaeth Afu Prydain[12]

Er mwyn cael gwybod rhagor am sut mae archfarchnadoedd yn arddangos alcohol yn eu siopau, comisiynodd Alcohol Concern gwmni ymchwil annibynnol i wneud arolwg sydyn o bedair o'r prif archfarchnadoedd yng Nghaerdydd, gan gofnodi ble roedd eitemau alcoholig wedi'u gosod. Mae'r prif ganlyniadau wedi'u cyflwyno yn y tabl isod:

Tabl 1: Canlyniadau arolwg sydyn Alcohol Concern, Rhagfyr 2010[13]

Sainsbury's:

- Alcohol (gwin, gwiriodydd, cwrw) ar disgownt wrth fynedfa'r siop.
- Roedd alcohol hefyd ar yr eil dymhorol, ar brif eiliau bwyd, ar ddiwedd eiliau bwyd, ac ar ddiwedd eiliau alcohol.
- Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys poteli o win wrth ymyl diodydd ysgafn, poteli o wirodydd wrth ymyl ffrwythau, blychau cwrw wrth ymyl cawsiau, gwirodydd ar werth wrth y mins peis, a photeli o win wrth ymyl sudd ffrwythau.

Asda:

- Seidr ar ddisgownt wrth fynedfa'r siop.
- Roedd alcohol ar yr eil dymhorol, ar ddiwedd eiliau bwyd, ar ddiwedd eiliau alcohol, ac ar stondinau arddangos ar wahân.
- Roedd poteli o win wrth y cownteri pysgod a chig a'r deli, a chaniau o seidr wrth ymyl y cownter cyw iâr poeth.

Tesco:

- Roedd alcohol yn cael ei arddangos ar yr eil dymhorol, ar y prif eiliau bwyd, ar ddiwedd eiliau bwyd, ar ddiwedd eiliau alcohol, ac ar stondinau arddangos ar wahân.
- Roedd poteli o win ger y tiliau.
- Roedd poteli o win wrth ymyl y cownter cynnyrch llaeth, poteli o wirodydd wrth ymyl y bara a'r te, gwin pefriog wrth ymyl bwyd parti, a chaniau o seidr wrth ymyl creision.

Morrisons:

- Roedd alcohol ar ddiwedd y prif eiliau bwyd, ar ddiwedd eiliau alcohol, ac ar stondinau arddangos ar wahân.
- Roedd poteli o win yn cael eu harddangos wrth ymyl cacennau, blychau cwrw wrth ymyl y ffrwythau a'r llysiau, gwin ar gael wrth ymyl cola, a photeli o siampên wrth ymyl y llaeth.

Allan o'r ffordd?

Brîff Alcohol Concern Cymru

Trafodaeth

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos ei bod erbyn hyn yn arferol i alcohol gael ei arddangos drwy archfarchnadoedd benbaladr, y tu hwnt i'r eil alcohol benodol. Mae gan siopau mawr yn enwedig nifer o leoliadau y gallant arddangos diodydd alcoholaidd, gan gynnwys mynedfeydd, ger y tiliau, arddangosfeydd ar ddiwedd eiliau, a stondinau arddangos ar wahân. Hefyd maen nhw'n aml yn 'trawsfasnachu', lle mae diodydd yn cael eu harddangos wrth ymyl eitemau bwyd sy'n cyd-fynd â nhw er mwyn annog pobl i'w prynu. Yn aml iawn mae diodydd o'r fath ar gael ar ddisgownt. Mae arferion o'r fath yn helpu i wneud alcohol yn fwy derbyniol, gan gadarnhau'r cysyniad bod alcohol yn rhan normal a dymunol o'n diwylliant, yn hytrach nag yn gyffur a allai fod yn niweidiol.

Yn ôl ymchwil gan Brifysgol Sheffield, mae rhwng 30-40% o alcohol sy'n cael ei werthu gan archfarchnadoedd yn rhan o gynigion arbennig.[14] Does dim syndod, felly, fod archfarchnadoedd wedi mynd ati'n frwd i amddiffyn eu polisi o hyrwyddo diodydd alcohol, gan ddadlau bod y rhan fwyaf o'u cwsmeriaid yn prynu alcohol "fel rhan o'u basged siopa wythnosol".[15] Wrth gwrs, nid yw'r amddiffyniad hwn yn dweud dim wrthym am faint o alcohol sy'n cael ei brynu o archfarchnadoedd, na chwaith a yw'n cael ei yfed o fewn y canllawiau a argymhellir.

Mae Alcohol Concern yn credu y dylai diodydd alcoholaidd i gyd gael eu harddangos mewn un rhan o unrhyw siop (er na chredwn y byddai tiliau ar wahân ar gyfer alcohol yn ymarferol). Trwy hyn byddai angen i gwsmeriaid wneud penderfyniad ymwybodol i fynd i'r rhan honno er mwyn dewis diodydd alcoholaidd, gan leihau prynu ar fympwy. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi cyflwyno mannau arddangos ar wahân,[16] a chanfu arolwg yn 2010 o 1,000 o bobl yng Nghymru a oedd wedi prynu alcohol yn y tri mis blaenorol fod 70% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, gyda dim ond 20% yn erbyn.[17]

Argymhellion Alcohol Concern:

1. Dylai Llywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno rheoliadau yng Nghymru a Lloegr, ar batrwm rhai'r Alban, yn mynnu bod arddangosfeydd alcohol mewn archfarchnadoedd a phob siop drwyddedig arall wedi'u cyfyngu i un man.

2. Dylai archfarchnadoedd a phob siop drwyddedig arall wneud mwy o ymdrech i roi gwybod i'w cwsmeriaid am beryglon alcohol, gan roi rhybuddion iechyd penodol lle mae alcohol yn cael ei arddangos ac wrth y man talu.

3. Er mwyn lleihau'r broblem o archfarchnadoedd yn cynnig alcohol yn rhad iawn, dylid cyflwyno lleiafswm pris o 50c yr uned, yn unol ag argymhellion Prif Swyddogion Meddygol Prydain.

Allan o'r ffordd?

1. Jamieson, A. (2010) *Coroner criticises supermarket cheap alcohol after fatal '£10' binge,* The Telegraph, ar-lein, ar gael trwy: http://www.telegraph.co.uk/finance/newsbysector/retailandconsumer/7042815/Coroner-criticises-supermarket-cheap-alcohol-after-fatal-10-binge.html [defnyddiwyd 05/01/11].
2. Arolwg ar ran Alcohol Concern gan RMG. Copïau ar gael oddi wrth Alcohol Concern Cymru.
3. Plant, M. a Plant M. (2006) *Binge Britain: alcohol and the national response,* Rhydychen, Gwasg Prifysgol Rhydychen.
4. Euromonitor (2007) *Alcoholic drinks in the United Kingdom,* Mehefin 2007.
5. Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (2010) *National statistics bulletin: alcohol, entertainment and late night refreshment licensing, England and Wales,* Llundain, DCMS, tudalen 15.
6. Swyddfa Ystadegau Gwladol (2007) *Focus on consumer price indices,* Llundain, Swyddfa Ystadegau Gwladol.
7. Butterworth, M. (2010) *Supermarkets criticised for alcohol discounts,* The Telegraph, ar-lein, ar gael o http://www.telegraph.co.uk/finance/personalfinance/7168419/Supermarkets-criticised-for-alcohol-discounts.html [defnyddiwyd 26/11/10].
8. Papur y Comisiwn Cystadleuaeth, cyfeiriad ato yn Scottish Health Action on Alcohol Problems (2008) *Alcohol: price, policy and public health,* Caeredin, SHAAP.
9. Alcohol Concern (2010) *Beth yw'r drwg? Effeithiau negyddol camddefnyddio alcohol ar iechyd yng Nghymru,* Llundain, Alcohol Concern.
10. Emmas, C. (2010) *English drinkers pour double at home,* Harper's Wine and Spirit Trade Review, ar-lein, ar gael trwy: http://www.harpers.co.uk/news/8657-english-drinkers-pour-double-at-home.html [defnyddiwyd 28/01/11].
11. Gwefan fasnachol Carlsberg: http://www.carlsberg.co.uk/Trade/GoldenRules.aspx [defnyddiwyd 14/01/11].
12. Ymddiriedolaeth Afu Prydain (2008) *A binge for the cost of a sandwich: a British Liver Trust report into the unit price of alcohol in retail outlets in February 2008,* ar-lein, ar gael trwy: www.britishlivertrust.org.uk [defnyddiwyd 02/12/10].
13. Ymchwil a wnaed gan RMG, Rhagfyr 2010. Copïau o ganlyniadau'r arolwg ar gael gan Alcohol Concern Cymru.
14. Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Iechyd (2010) *Alcohol: first report of session 2009-10,* Cyfrol 1, Llundain, Y Llyfrfa.
15. Gweler, er enghraifft: http://yourcardiff.walesonline.co.uk/2010/05/17/concerns-as-sainsburys-bid-for-extra-alcohol-license-on-st-mary-street [defnyddiwyd 05/01/11].
16. Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Gweithio gyda'n gilydd i leihau niwed: strategaeth camddefnddio sylweddau Cymru 2008-2018,* Caerdydd, Llywodraeth Cynulliad Cymru.
17. Ymchwil a wnaed gan RMG, Rhagfyr 2010. Copïau o ganlyniadau'r arolwg ar gael gan Alcohol Concern Cymru.

Brîff Alcohol Concern Cymru

Cyhoeddwyd gan Alcohol Concern, ar ran Alcohol Concern Cymru, Sophia House, 28 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ

Ffôn: 029 2066 0248, Ffacs: 029 2066 0249

E-bost: acwales@alcoholconcern.org.uk

Gwefan: www.alcoholconcern.org.uk

Hawlfraint: Alcohol Concern Chwefror 2011

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn unrhyw ffurf (gan gynnwys llungopïo neu storio mewn unrhyw gyfrwng electronig), neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ddull heb ganiatâd y cyhoeddwyr a pherchenogion yr hawlfraint.

Darparwyd y llun gan iStockphoto.

Mae Alcohol Concern yn elusen gofrestredig rhif 291705 ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yn Llundain rhif 1908221.

Alcohol Concern
Meddwl yn Gall am Alcohol